A allaf gael Lwfans Byw i'r Anabl?

Gwirio os efallai bod gennych hawl nawr i Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn rhoi'r cyfle i chi i gael gwybod os yw eich cais yn debygol o lwyddo.

Budd-dal yw Lwfans Byw i'r Anabl i helpu gyda'r costau ychwanegol os oes gennych anabledd digon difrifol fel eich bod angen rhywun i'ch helpu gyda'ch gofal personol, neu mae gennych anawsterau corfforol wrth gerdded, neu angen rhywun gyda chi pan yn cerdded allan yn yr awyr agored.

I gael Lwfans Byw i'r Anabl mae'n rhaid i chi fod yn byw ym Mhrydain Fawr fel arfer (Prydain Fawr yw Cymru, Lloegr a'r Alban) ac ddim yn destun i reolaeth mewnfudiad. Mewn rhai amgylchiadau, gall pobl sy'n byw mewn gwladwriaeth Ardal Ewropreaidd Economeg (AEE) arall neu'r Swistir hawlio Lwfans Byw i'r Anabl o Brydain Fawr.

1 **Ydych chi'n byw ym Mhrydain Fawr?**

Ydw ☐ Ewch i gwestiwn 3.

Na ☐ Ewch i gwestiwn 2.

2 **Ydych chi'n byw yn yr AEE neu'r Swistir?**

Ydw ☐ Peidiwch â chwblhau'r ffurflen gais nawr on ysgrifenwch at:

Exportability Co-ordinator
Room C216
Pension, Disability and Carers Service
Warbreck House
Warbreck Hill Road
Blackpool, England
FY2 0YE

Ebost: Exportability.team@dwp.gsi.gov.uk

Dywedwch wrthym lle rydych yn byw ac eich bod eisiau gwneud cais.

Na ☐ Nid ydych yn debygol o fod yn gymwys i Lwfans Byw i'r Anabl. Ond os ydych eisiau gwneud cais o hyd, llenwch y ffurflen gais i mewn.

3 **Beth yw eich cenedligrwydd?**

Prydeinig ☐ Ewch i gwestiwn 5. **Arall** ☐ Ewch i gwestiwn 4.

4 **Ydych chi wedi cael gwybod nad oes gennych hawl i fynd ar ofyn cronfeydd cyhoeddus?**

Mae hyn yn golygu na allwch hawlio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau. Gallwch gael gwybod drwy wirio eich pasbort neu unrhyw bapurau sydd gennych gan y Swyddfa Gartref.

Ydwyf ☐ Ni allwch wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl oni bai eich bod yn byw gyda aelod teuluol arall sy'n ddinesydd AEE. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 5.

5 **Mae gennym reolau arbennig i bobl sydd ag afiechyd terfynol. Mae hyn yn golygu os oes gennych glefyd cynyddol ac nid oes disgwyl i chi fyw am fwy na chwe mis. Ydych chi eisiau gwneud cais o dan y rheolau arbennig?**

Ydw ☐ Llenwch y ffurflen gais. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 6.

6 **Ydych chi'n cael anhawster o gwbl, angen anogaeth neu angen help gyda'ch gofal personol?**

Mae enghreifftiau o ofal personol yn cynnwys pethau fel:

- mynd i mewn a chodi o'r gwely
- ymolchi a gwisgo
- defnyddio'r toiled
- symud o gwmpas o dan do – mae hyn yn cynnwys defnyddio grisiau, mynd i mewn neu allan o unrhyw fath o gadair neu gadair olwyn
- bwyta neu yfed
- cymryd meddyginiaeth neu gael therapi – mae hyn yn cynnwys therapi ocsigen, pigiadau, anadlwyr neu ymdopi â sgîl-effeithiau
- cyfathrebu (fel clyw a lleferydd)
- arolygaeth i'ch cadw'n ddiogel – mae hyn yn cynnwys bod yn berygl i chi eich hun neu eraill, bod mewn perygl neu esgeuluso neu niweidio eich hun, crwydro neu ddisgyn, bod yn ddryslyd neu gael ffitiau neu lewygon
- coginio pryd o fwyd i chi eich hun – mae hyn yn cynnwys anawsterau gyda chynllunio eich pryd o fwyd, defnyddio sosbenni poeth ac offer cegin neu gael cymhelliad i wneud y pethau hyn
- ymadweithio'n gymdeithasol gydag eraill.

Ni allwn ystyried pethau fel:

- glanhau
- sugnlanhau
- torri glaswellt
- unrhyw waith cyffredinol arall yn ymwneud â thŷ.

Ydw ☐ Ewch i gwestiwn 7. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 9.

7 **Ydy eich anhawster gyda gofal personol oherwydd problem gorfforol neu feddyliol, neu oherwydd anhawster golwg,clyw, lleferydd neu ddysgu?**

Ydy ☐ Ewch i gwestiwn 8. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 9.

8 **Byddwch ond yn gymwys i Lwfans Byw i'r Anabl fel arfer pan rydych wedi bod angen help am dri mis ac mae'n rhaid i chi fod yn debygol o fod angen yr help hwn am chwe mis ar ôl y dyddiad rydych yn gymwys.**

Ydych chi'n meddwl y byddwch angen help am o leiaf chwe mis ar ôl i chi fodloni'r cyfnod cymhwyso tri mis?

Byddaf ☐ Llenwch y ffurflen atoch. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 9.

9 **Ydych chi'n cael anhawster o gwbl yn symud o gwmpas allan yn yr awyr agored?**

Mae esiamplau o'r math yma o anhawster yn cynnwys pethau fel:

- ni allwch gerdded o gwbl allan yn yr awyr agored
- gallwch ond cerdded ychydig o ffordd ar wyneb gymharol wastad cyn:
  - i chi deimlo anesmwythdra difrifol, neu
  - i chi fynd yn ansad, neu
  - cyn i chi fynd yn fyr o wynt neu'n benysgafn, neu
  - cyn i chi roi eich iechyd mewn perygl os byddech yn parhau cerdded
- efallai byddwch angen rhywun gyda chi allan yn yr awyr agored fel nad ydych yn:
  - rhoi eich hun neu eraill mewn perygl
  - crwydro neu fynd ar goll

Ydwyf ☐ Ewch i gwestiwn 10. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 12.

10 **Ydy eich anhawster gyda symud o gwmpas allan yn yr awyr agored oherwydd problem gorfforol neu feddyliol, neu oherwydd anhawster golwg, clyw, lleferydd neu ddysgu?**

Ydy ☐ Ewch i gwestiwn 11. **Na** ☐ Ewch i gwestiwn 12.

11 **Byddwch ond yn gymwys i Lwfans Byw i'r Anabl fel arfer pan rydych wedi bod angen help am dri mis ac mae'n rhaid i chi fod yn debygol o fod angen yr help hwn am chwe mis ar ôl y dyddiad rydych yn gymwys.**

Ydych chi'n meddwl y byddwch angen help am o leiaf chwe mis ar ôl i chi fodloni'r cyfnod cymhwyso tri mis?

Byddaf ☐ Anfonaf ffurflen gais atoch. **Na** ☐ ewch i gwestiwn 12.

12 **Ydy unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi?**

- Byddwch angen help gyda dialysis gartref neu mewn uned gofal lleiafswm beth bynnag ddwywaith yr wythnos ple nad ydych yn derbyn help gan staff ysbyty.
- Rydych yn 100% yn ddall a 80% yn fyddar ac rydych angen rhywun gyda chi pan rydych allan yn yr awyr agored.
- Rydych wedi cael torri eich dwy goes i ffwrdd yn neu uwchben y ffêr, neu rydych wedi cael eich geni heb goesau na thraed.
- Rydych wedi cael eich amharu'n ddifrifol feddyliol gyda phroblemau ymddygiad difrifol ac angen help gyda gofal personol dydd a nos.

Ydy ☐ Llenwch y ffurflen gais i mewn. **Na** ☐ nid ydych yn debygol o fod yn gymwys i Lwfans Byw i'r Anabl. Ond os ydych eisiau gwneud cais o hyd, gallaf anfon ffurflen gais atoch.